

Rhad ras

“Bydded gofal gan bob un ohonoch, nid am eich buddiannau eich hunain yn unig, ond am feddiannau pobl eraill hefyd.” (adn. 4)

Beth am ddarllen Philipiaid 2:1–11 ac yna myfyrio

Ffordd arall mae pobl yn sefydlu perthynas â'i gilydd yw i weithio ynghyd. Nawr i bob golwg mae hyn yn gam ymlaen ar y tair ffordd flaenorol, ond a yw'n ddigonol? A yw'n bosibl i weithio gyda phobl ac eto peidio â chaniatáu i'n bywyd fod yn rhywbeth ar wahân. Wrth ddweud hyn, rwyf yn meddwl yn benodol am berthynas o fewn yr eglwys.

Does ond un ffordd i feithrin perthynas sydd yn gweithio. Dylem weithio, nid yn unig gyda phobl, ond hefyd dros eraill. Mae'n angenrheidiol ein bod yn rhoi ystyriaeth lawn i fanteision eraill ynghyd â'n helw personol, yr awydd i gynorthwyo eraill yn yr un modd ag yr ydym ni yn dymuno cael ein cynorthwyo. Pe gwelid hyn yn cael ei ymarfer yn helaethach yn ein heglwysi, yna mi fyddai llawer o'n problemau yn sicr o ddiflannu.

Ni allwn ddisgwyl i bobl sydd ddim yn Gristnogion weithio gyda'i gilydd ac er mwyn ei gilydd, ond fe ddylem ddisgwyl hyn o fewn yr Eglwys ac o fewn perthynas Cristnogion. Beth fyddai'r canlyniad, tybed, petai hyn yn digwydd ym myd busnes, cyflogwyr a'r rhai sydd yn cael eu cyflogi sydd yn aml yn gweithio mewn sefyllfaoedd lle mae amheuaeth a diffyg ymddiriedaeth. Beth fyddai canlyniad gweithredu fel hyn mewn cyd-destunau felly? Beth petai cyflogwyr yn meddwl mwy am y rhai sydd yn gweithio iddyn nhw a'r rheiny yn meddwl mwy am eu cyflogwyr? Mae'n siŵr y byddai mwy yn cael ei gynhyrchu, ac ychydig iawn o densiynau.

Wrth gwrs, i ni sydd yn perthyn i'r Eglwys, mae i ni fantais fawr dros y rhai nad ydynt yn Gristnogion. Mae gennym ni allwedd drws rhad ras, y gras y mae Duw yn ei roi inni er mwyn rhwyddhau a chryfhau ein perthynas ag eraill.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Luc 9:1–6; Ioan 12:1–8; 1 Cor. 10:23–11:1; Eff. 6:5–9

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut fu i Jwdas weithio gydag eraill ac eto ddal ei hunan yn ôl?
2. Disgrifiwch sut ddylai perthynas weithio.

Gweddi

O Dad, dyro yr agwedd meddwl honno i mi sydd yn gweithio, nid er sicrhau fy muddiannau fy hun ond buddiannau eraill hefyd. Mae dy ras yno i'm cynorthwyo i wneud hyn. Cynorthwya fi i adnabod y rhad ras yma yn fy mywyd. Amen.